Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr

Y myth Gwaherddir plant rhag taflu peli eira

Y gwirionedd Bob blwyddyn rydym yn clywed straeon anghywir am blant nad ydynt yn cael taflu peli eira, a nofwyr nad ydynt yn cael mynd i nofio yn y llyn lleol fel y maent wedi ei wneud bob gaeaf ers blynyddoedd. Hyn oll oherwydd iechyd a diogelwch.

Os byddwn yn treulio amser canolbwyntio ar y risgiau dibwys mae'n bosibl y byddwn yn colli golwg ar y rhai pwysicaf. Mae angen i ni ganolbwyntio ar ddod o hyd i ffyrdd o wneud i bethau ddigwydd, nid rhesymau i'w hatal - mae dull synhwyrol o reoli risg yn canolbwyntio ar gamau ymarferol i fynd i'r afael â risgiau sy'n achosi niwed a dioddefaint gwirioneddol.